# Strategaeth Pobl 2024-2029 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe: Crynodeb

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

Mae ein **Strategaeth Pobl bum mlynedd** yn adlewyrchu ac yn trafod yr hyn rydych wedi dweud wrthym. Fe'i hysgrifennwyd ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid ac mae'n cyd-fynd â gweledigaeth ddeng mlynedd ein Bwrdd Iechyd.

Mae'r strategaeth wedi'i datblygu oherwydd:

- Mae ein **pobl** yn bwysig i ni
- Mae ein **cymunedau** yn bwysig i ni
- Mae ein **hamgylchedd** yn newid
- Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i **ddarparu profiad gwych i'n pobl.**

Byddwn yn cyflawni ein **Strategaeth Pobl** gyda'n gilydd, trwy ein **Haddewid Pobl** newydd, ein Compact Partneriaeth newydd gyda'n Partneriaid Undebau Llafur a'n **gwerthoedd** presennol: gofalu am ein gilydd, cydweithio a gwella bob amser.

Mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn cael eu dal gan ein mantra newydd – **"Un Bae ar y Cyd".**

## Ein 7 Nodau Strategol:

**1. Ymgysylltiol, Cymhellol ac Iach**
Rydym am i'n pobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn cael eu gwobrwyo a'u cefnogi'n deg.

**2. Denu a Recriwtio**
Rydym am gael ein cydnabod fel cyflogwr o ddewis.

**3. Wedi'i Gynllunio'n Dda**
Byddwn yn anelu at gael y nifer cywir o bobl fedrus yn gweithio ar y pethau cywir.

**4. Yn barod yn ddigidol**
Rydym am sicrhau bod ein pobl yn teimlo'n barod ar gyfer ein dyfodol digidol.

**5. Dysgu ac Addysg Ardderchog**
Byddwn yn cefnogi ein pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen arnynt.

**6. Arweinwyr sy'n Byw Ein Gwerthoedd**
Rydym am i'n holl bobl fod yn esiampl o arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol.

**7. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Pherthyn**
Byddwn yn ymdrechu i fod yn amrywiol ac yn gynhwysol, gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

OUR BIG CONVERSATION

| 2022 | 2024 – 2025 – 2026 – 2027 – 2028 – 2029 | |
|---|---|---|
| Sgwrs Fawr | Strategaeth Pobl 2024-2029 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Gweledigaeth 10 mlynedd |

Defnyddiwyd adborth gan 1400+ o'n pobl i lywio'r camau gweithredu yn ein dogfen weledigaeth 10 mlynydd "Un Bae ar y Cyd" a Strategaeth Pobl.

Rydych **chi**, ein pobl, yn ganolog i gyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol ac mae'r **Strategaeth Pobl 5 mlynedd** hon yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y cyd ar yr hyn sy'n bwysig i chi, gan greu amgylchedd lle rydych yn teimlo wedi'ch grymuso ac yn gallu ffynnu.

**Gweledigaeth 10 mlynedd 2034**
Rydym yn dod yn sefydliad o ansawdd uchel